

Cofnodion cyfarfod rhif 80
Pwyllgor Cyngori Cymru
a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams ar 9 Mawrth 2021

Yn bresennol

Hywel Wiliam	Y Cadeirydd
Andrew Board	Aelod
Peter Trott	Aelod (eitemau 11-18)
Ruth McElroy	Aelod
Rem Noormohamed	Aelod

Hefyd yn bresennol

David Jones	Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom
Aled Eirug	Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys
Sian Phipps	Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau
Katie Pettifer	Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus, Ofcom
Eleanor Marks	Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru
Elinor Williams	Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
Meleri Evans	Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
David Symons	Uwch Swyddog Cyswllt yr Iaith Gymraeg, Ofcom Cymru
Liz Nash	Cynorthwydd Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

Ymddiheuriadau

Robert Andrews	Aelod
----------------	-------

Eitemau ar yr Agenda	Gweith redu
Cyflwyniad	
1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 80 Pwyllgor Cyngori Cymru (PCC).	
Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar	
2. Dywedodd Ruth McElroy y bydd yn cynnal ymarferiad mapio sgiliau ledled Cymru o ran y sector sgrin ar ran Cymru Greadigol.	
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2020 a materion yn codi – Cofnodion PCC 79(3)	
3. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2020 wedi cael eu dosbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw. Yn dilyn diwygiad ychwanegol, cafodd y cofnodion eu CYMERADWYO fel cofnod cywir o'r cyfarfod.	
Materion yn codi/Camau gweithredu heb eu cyflawni -	
<ul style="list-style-type: none"> Cofnod 3 – Amlygrwydd Pwyllgor Cyngori Cymru – cytunwyd y byddai angen sgwrs lawnach gyda chydweithwyr Llywodraethu ac Atebolrwydd yng ngoleuni'r etholiad nesaf yng Nghymru a gofynion purdah. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru 	EM

<ul style="list-style-type: none"> • Cofnod 6 - Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal mewn Teledu a Radio. Dywedodd Ofcom Cymru fod cydweithiwr yn Ofcom Cymru wedi trafod â'r tîm Digidol a Chynhwysiant ac wedi cadarnhau bod ganddo ddigon o ddata ar hyn o bryd. Mae BBC Cymru Wales ac S4C wedi penodi Swyddogion Amrywiaeth yn ddiweddar ac awgrymodd Aelodau eu gwahodd i fynychu cyfarfod yn y dyfodol. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru • Trafododd yr Aelodau ddau adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig ar Waith Sgrin (a luniwyd gan Ruth McElroy) a'r Adroddiad Archwiliad Cyfryngau a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Cytunodd RMcE i anfon dolenni at yr aelodau. • Cofnod 7 – Adroddiad Seilwaith Cenedlaethol – mae dal angen gwahodd yr awduron i gyfarfod yn y dyfodol ond cytunwyd y dylai'r Pwyllgor gyfarfod ymlaen llaw i drafod. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru i ddsbarthu dolen i'r adroddiad. • Cofnod 11 – BBC Studios – eitem ar yr agenda yn y cyfarfod heddiw. • Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Athro Stephen Cushion ar 2 Mawrth 2021. Mae Ofcom yn ystyried darn ymchwil ar yr ymdriniaeth mewn newyddion rhwydwaith a'r gwledydd, a bydd ymarferiad caffael yn cael ei gynnal yn unol â hynny. 	EW RMcE EW
<p>Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar</p> <p>4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf yn cynnwys mynd i:</p> <p>Sesiynau ar-lein Uwchgynhadledd Cyfryngau'r Sefydliad Materion Cymreig;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweminar Strategaeth Rheoli Arwerthiant Sbectwm; • Digwyddiad Cynllun Gwaith Ofcom Cymru; • Cyfarfod diweddarau BBC Cymru Wales; • Cyfarfod trafod ynghylch Adolygiad Ofcom o BBC Studios; • Cyfarfod WISP (gydag Aelod Cymru o Fwrdd Ofcom). <p>5. Trafododd yr aelodau geisiadau diweddar am DAB ar raddfa fach yng Nghymru ac roedden nhw'n falch bod GTFM wedi cael y drwydded ar gyfer Cymoedd Cymru.</p> <p>6. Cododd y Cadeirydd y grid treigl Ymgynghoriadau sydd ar y gweill, a gafodd ei drafod yn fanylach mewn eitem yn ddiweddarach ar yr agenda.</p>	
<p>Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom – ar lafar</p> <p>7. Rhoddodd yr Aelod Bwrdd ar ran Cymru ddiweddariad llafar llawn a chrynodeb o bynciau allweddol dros y misoedd diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithgarwch corfforaethol cyfredol gan gynnwys penodiadau yn y BBC, y Post Brenhinol, BT. Dywedodd hefyd fod yr hysbyseb ar gyfer Cadeirydd Ofcom wedi cael ei chyhoeddi, gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal ddiwedd mis Ebrill. • Cyhoeddiadau sydd ar y gweill – Adolygiad o'r Farchnad Gyfanwerthu a 5G • Cyhoeddi blaenoriaethau'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd Ofcom yn gweithio'n agos gyda'r CMA a'r ICO. • Y Bil Diogelwch Telegyfathrebiadau a'r ymosodiadau seiber mawr diweddaraf. 	
<p>Adroddiad – Polisi Cyhoeddus</p> <p>8. Roedd Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus Ofcom eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddarau yn amlinellu datblygiadau allweddol Llywodraeth y DU a'r Senedd ers y cyfarfod diwethaf. Yn ogystal â'r pynciau a grybwyllwyd eisoes, roedd yr uchafbwyntiau ychwanegol yn cynnwys:</p>	

<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad Mynediad a datganiad ar delegyfathrebiadau sefydlog sydd i'w cyhoeddi cyn bo hir. Mae'n cynnwys rheoliadau prisio BT a chynlluniau diffodd copr. Mae'r ffocws ar fuddsoddi ar gyfer defnyddwyr. • Strategaeth Rheoli Sbectrwm – Cododd aelod fater sensitifrwydd y farchnad a phryderon ynghylch ardal 3 (hyrwyddo rhannu sbectrwm). Gofynnodd y Cadeirydd iddo anfon nodyn esboniadol at yr aelodau er mwyn darparu rhywfaint o wybodaeth am y farchnad. • Gofynnodd Aelod Cymru ar y Bwrdd Cynnwys am gynlluniau Ofcom o ran recriwtio a lleoli cydweithwyr ychwanegol i weithio ar ei rwymedigaethau Niwed Ar-lein. Cadarnhaodd Ofcom fod trafodaethau ynghylch strategaeth leoli yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda chynigion ar gyfer safle newydd posibl yng ngogledd Lloegr yn cael eu hystyried ac ehangu swyddfeydd presennol y gwledydd. • O ran y pwynt a wnaed yn yr adroddiad am fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu, gofynnodd Aelod Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a oedd gan Ofcom ddata yn ymwneud â Chymru. Mae Ofcom wrthi ar hyn o bryd yn dadansoddi'r data mewn perthynas â lleoliad daearyddol a bydd yn gallu darparu rhagor o wybodaeth maes o law. 	<p>RM</p> <p>KP</p>
<p>Y Diweddaraf: Aelod Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom</p> <p>9. Roedd Aelod Cymru o'r Bwrdd Cynnwys eisoes wedi dosbarthu papur diweddar. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Niwed Ar-lein - Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau Ofcom fel rheoleiddiwr y dyfodol, ac mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cytuno ar y gyllideb arfaethedig gychwynnol. • Bydd Ofcom yn cyflogi hyd at 100 o bobl ychwanegol ledled y DU yn ystod y flwyddyn gyntaf, a bydd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u lleoli mewn lleoliad yng Ngogledd Lloegr. Mae'r Aelod dros Gymru yn croesawu'r cyfle i weld swyddi'n dod i Gymru. • Safonau Darlledu – diddymu gwasanaeth teledu CGTN oherwydd bod y Cod Darlledu wedi'i dorri, gan ei fod yn eiddo i blaid Gomiwnyddol Tsieina. • Cyfarfodydd – gyda Chyfarwyddwr Cymru mewn cyfarfodydd gyda Tinopolis, BBC Cymru Wales ac ITV Cymru Wales i drafod eu hymatebion i'r ymgynghoriad 'Sgrin Fach, Trafodaeth Fawr' ac Adolygiad Ofcom o BBC Studios. Bydd hefyd yn bresennol yn y cyfarfod gyda'r Athro Stephen Cushion gyda chydweithwyr o Ofcom Cymru. • Materion y BBC – mae trafodaethau'n parhau ynghylch yr adolygiad o BBC Studios. Roedd yr Aelod dros Gymru wedi cwrdd â chydweithwyr yn y BBC a chydweithwyr yn Ofcom i drafod ei effaith yng Nghymru. • Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus – bydd yr Aelod dros Gymru ac Aelodau Pwyllgor Cynghori Cymru yn cwrdd yr wythnos nesaf i ystyried ei argymhellion fel rhan o'i ymateb i'r ymgynghoriad. 	<p>AE/ PCC</p>
<p>Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau</p> <p>10. Roedd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddar ar weithgareddau'r Panel ers y cyfarfod diwethaf.</p> <p>11. Roedd hi hefyd wedi cadeirio cyfarfod Hyb Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Cymru yn ddiweddar, a dywedodd fod y pynciau canlynol wedi cael eu trafod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth ar ddyled a fforddiadwyedd – cytunwyd bod angen dull gweithredu traws sector ar fforddiadwyedd a chyfeirio defnyddwyr yn well. 	

<ul style="list-style-type: none"> • Bydd nodyn o’r holl gyfarfodydd Hyb yn cael ei ddsbarthu maes o law a fydd yn cael ei anfon at yr Aelodau. • Cynhelir cyfarfod o Gadeiryddion yr Hybiau ar 10 Mawrth a bydd y pynciau trafod yn cynnwys cynhwysiant digidol a sgiliau, hygyrchedd gwasanaethau a phrisiau personol. • Cyflwyniad yn y dyfodol ar VoIP ac ymwybyddiaeth defnyddwyr os bydd hefyd yn cael ei roi ym mhob cyfarfod Hyb ledled y DU. • Bydd Hyb nesaf Cymru ar 21^{ain} Ebrill ac mae’r Panel wrthi’n casglu awgrymiadau ar gyfer eitemau ar yr agenda. <p>12. Yn ogystal, dywedodd yr Aelod dros Gymru ei bod, gyda Chyfarwyddwr Cymru, wedi mynychu cyfarfod gyda Chyngor ar Bopeth Cymru ac yn gobeithio meithrin perthynas waith dda a fydd yn golygu bod aelod o dîm Cyngor ar Bopeth yn mynychu cyfarfodydd Hyb Cymru yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid oes gan dîm Cyngor Ar Bopeth y DU gynrychiolydd penodol ar gyfer Cymru a bydd yn rhoi sylw i hyn. Bydd Aelod Cymru o’r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau hefyd yn cwrdd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nes ymlaen ym mis Mawrth.</p> <p>13. Mae’r mireinio terfynol yn cael ei wneud i Flaen-Strategaeth y Panel ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda mwy o bwyslais ar gynyddu cyfathrebu uniongyrchol â defnyddwyr. Dosberthir drafft maes o law a gwahoddodd yr aelodau i ymateb.</p> <p>14. Dywedodd fod pum darn newydd o ymchwil wedi’u comisiynu (mae’r manylion wedi’u hamlinellu yn yr adroddiad).</p> <p>15. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y gellid gwahodd darparwyr gwasanaethau band eang a symudol llai i annerch y Panel a sut y gellid lansio ymgyrch gyfathrebu well i dynnu sylw defnyddwyr at gyflenwyr amgen, fforddiadwy.</p> <p>16. Hefyd, dywedodd yr Aelod dros Gymru fod y Panel wedi ymgysylltu â sefydliadau allanol gan gynnwys FutureDotNow – sefydliad sy’n dod â sefydliadau eraill at ei gilydd i ysgogi pobl a busnesau ledled y DU i wella eu sgiliau digidol; a’r corff cynghori ar ddyled, StepChange, a ddarparodd drosolwg o Gynllun Gofod Anadlu arfaethedig Llywodraeth y DU – sydd â’r nod o helpu defnyddwyr sy’n cael trafferthion ariannol.</p>	SP
<p>Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru</p> <p>17. Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddar a rannwyd yn flaenorol a oedd yn ymdrin â phynciau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y drafodaeth mewn cyfarfod diweddar rhwng Prif Weithredwr Ofcom a Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys telegyfathrebiadau, darlledu, strategaeth leoli Ofcom a’r posibilrwydd o sefydlu swyddfa yng Ngogledd Lloegr i gartrefu gwaith polisi niwed ar-lein a chynlluniau ehangu ar gyfer y swyddfeydd yn y gwledydd. • Digwyddiad Cynllun Gwaith ar-lein Ofcom Cymru – 50 a mwy o randdeiliaid yn bresennol. • Ymddangosiad Elinor Williams o flaen Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn trafod cysylltedd Band Eang. • Pynciau a godwyd yn uwchgynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig. • Cyfarfod diweddar gyda BBC Cymru Wales gyda gwahoddiad i Aelodau ymweld â stiwdios y Sgwâr Canolog gan fod pawb wedi symud yno bellach. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru • Y ffordd y mae Ofcom yn meddwl ar hyn o bryd am ei strategaeth leoli. Pwysleisiodd yr aelodau unwaith eto bwysigrwydd datblygu’r swyddfa yng Nghaerdydd. 	EM/EW

<ul style="list-style-type: none"> • Cyllid y BBC ar gyfer S4C – bydd Cyfarwyddwr Cymru ac Aelod Cymru ar y Bwrdd Cynnwys yn codi hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol gydag Owen Evans. 	AE/EM
<p>Rhwydwaith Gwledig a Rennir - Mobile UK</p> <p>18. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Gareth Elliott i'r cyfarfod. Rhoddodd gyflwyniad cynhwysfawr ar weithgareddau Mobile UK. Roedd hyn yn cynnwys ymgyrch gyfathrebu newydd '5G Check the Facts' sy'n cael ei defnyddio i fynd i'r afael ag unrhyw gamwibodaeth am 5G ac effeithiau ar iechyd. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi croesawu hyn. Mae Mobile UK yn fodlon iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau addysg gyhoeddus ac i Aelodau hysbysebu'r ymgyrch. Byddai unrhyw gymorth o'r tu hwnt i'r diwydiant yn cael ei werthfawrogi'n fawr e.e. yr Adran Iechyd, ysgolion ayb.</p>	
<p>Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus</p> <p>19. Ymunodd cydweithwyr o Ofcom â'r cyfarfod a rhoi trosolwg gyffredinol ar gyflwyniad y tîm ym mis Rhagfyr. Daw'r ymgyngoriad i ben yn swyddogol ar 16 Mawrth, ond cytunodd y tîm y gallai'r Pwyllgor ddarparu ei ymateb yn yr wythnos nesaf ar ôl iddynt gyfarfod i drafod.</p> <p>20. Cafwyd trafodaeth ar y diffiniad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, cyllid ffi'r drwydded ar gyfer S4C a'i effaith ar y sector cynhyrchu. Dywedodd y tîm fod yr hyn a ddywedwyd gan randdeiliaid yn eu hymatebion i'r ymgyngoriad yn cael ei ystyried ac y byddai Ofcom yn rhoi cyngor i Lywodraeth y DU rywbryd yn ystod yr haf. Ailddywedwyd mai mater i Lywodraeth y DU yw cyllid ffi'r Drwydded.</p>	
<p>Mynediad Di-wifr Sefydlog</p> <p>21. Ymunodd cydweithwyr o Ofcom â'r cyfarfod a rhoi cyflwyniad trosolwg byr a oedd yn ddefnyddiol iawn i'r Aelodau. Fel y soniwyd eisoes, cafwyd trafodaeth gyda'r tîm ynghylch sut y gellid codi ymwybyddiaeth defnyddwyr o fynediad di-wifr sefydlog fel technoleg amgen i ddarparu band eang. Nodwyd bod y ddarpariaeth gan WISPs yng Nghymru yn sylweddol uwch nag ar gyfer gwledydd eraill y DU oherwydd y cyfraniad gan WISPs fel Airband, ResNet a Secure Web Services.</p>	
<p>Adolygiad o BBC Studios</p> <p>22. Rhoddodd tîm Ofcom drosolwg byr o'i waith gan ddweud y bydd canfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth y llynedd yn cael eu cyhoeddi yn yr haf. Mae'r tîm yn cynnig ymgysylltu â Phwyllgor Cynghori Cymru eto cyn ei ganfyddiadau, y bwriedir eu cyhoeddi yn ystod haf 2021. Mae'r tri phrif faes diddordeb yn ymwneud â gwahanu gweithredol, prisiau trosglwyddo a chyfradd adennill y farchnad. Ni chafodd comisiynu ei gynnwys yn yr adolygiad, ond mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon yn eu hymatebion i'r Cais am Dystiolaeth a bydd Ofcom yn ystyried ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid yn y maes hwn ar wahân i'r Adolygiad.</p> <p>23. Dywedodd y tîm ei fod eisoes wedi cwrdd ag Aelod Cymru ar y Bwrdd Cynnwys i drafod tryloywder a thegwch rhwng Stiwdios a chomisiynu yn fwy manwl. Cytunwyd y dylid cynnal cyfarfodydd un i un gyda rhanddeiliaid i drafod materion penodol i Gymru a gofynnodd y tîm i'r Aelodau ddarparu cysylltiadau a awgrymir. CAM GWEITHREDU – PWYLLGOR CYNGHORI CYMRU</p>	PCC

<p>24. Cytunodd y tîm i fynychu cyfarfod Pwyllgor Cyngkori Cymru yn y dyfodol i gyflwyno ei ganfyddiadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p>	
<p>Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal mewn Teledu a Radio.</p> <p>25. Cyhoeddwyd diweddariad yr adroddiad ym mis Tachwedd gyda chynlluniau i'w roi ar waith eleni. Roedd y canfyddiadau yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Y meysydd y mae angen eu gwella o hyd yw anabledd a diffyg recriwtio o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar lefel uwch reolwyr. Roedd y tîm yn falch o glywed bod S4C a BBC Cymru Wales wedi penodi Swyddogion Amrywiaeth yn ddiweddar ac maent yn awyddus i gynnal cyfarfodydd rhagarweiniol. Manylion cyswllt i gael eu darparu i'r tîm. GWEITHREDU - Ofcom Cymru/RMcE.</p> <p>26. Dyma bumed flwyddyn yr ymarferiad monitro a bwriedir cynnal digwyddiad mawr i randdeiliaid yn yr hydref.</p>	<p>EW/ RMcE</p>
<p>Dyfodol Teledu Daearol Digidol</p> <p>27. Ymunodd cydweithwyr o Ofcom â'r cyfarfod. Roedd adroddiad diweddar wedi'i ddosbarthu'n flaenorol. Gofynnodd y tîm i'r Aelodau nodi meysydd ffocws arfaethedig Ofcom ar gyfer ei ddogfen drafod arfaethedig ar Ddyfodol Teledu Daearol Digidol a byddai'n croesawu safbwyntiau'r Pwyllgor ar y senarios damcaniaethol y mae wedi'u nodi a allai effeithio ar ddefnyddwyr neu ar y sector darlledu yng Nghymru.</p> <p>28. Awgrymodd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y gallai'r tîm annerch cyfarfod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn y dyfodol er mwyn canfod ei farn yntau hefyd. CAM GWEITHREDU - Tîm Teledu Daearol Digidol/Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau i drefnu.</p>	<p>Tîm TDD</p>
<p>Yr wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr</p> <p>NODWYD y cynnwys.</p>	
<p>Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod</p> <p>29. Bydd Aelodau'n trafod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar 16 Mawrth</p> <p>30. Y Cadeirydd i ddosbarthu rhestr o ymgynghoriadau sydd ar y gweill i Aelodau unigol eu monitro yn dilyn y cyfarfod.</p>	<p>PCC HW</p>
<p>Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol</p> <p>Unrhyw fater arall – Amh</p> <p>Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:</p> <p>Dydd Mawrth 15^{fed} Mehefin</p> <p>Dydd Mercher 22^{ain} Medi</p> <p>Dydd Mawrth 24^{ain} Tachwedd</p>	